Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 17EG TACHWEDD, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod cysylltwch â ni)

Pwynt Cyswllt

Courtney Jones

courtneyleighjones@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWYD Dydd Mawrth 10 Tachwedd 2026)

AELODAETH:

Cyngor Gwynedd:

Gwilym Jones	Porthmadog Consultative Habour Committee
John Pughe	
Anne Lloyd-Jones	
Dewi Owen	

Aelodau Cyfetholedig:

Josh Cooper	RNLI Aberdyfi
David Williams	Member of Aberdyfi & Improvements Committee
Huw Evans	Aelod o Gymdeithas Psygodfeydd Bae Ceredigion
Nigel Willis	Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi
Desmond George	Aelod o Glwb Hwylio Dyfi
Ian Baylis	Outward Bound Trust Wales
Guy Shaw	
Stephen Tudor	Cynrychioli Clwb Hwylio Pwllheli

Sylwedyddion:

Cyng. Medwyn Hughes (Aelod Cabinet Economi)

RHAGLEN

1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2026-27.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2026-27.

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

5. COFNODION 4 - 8

I dderbyn bod cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2026 yn gywir.

6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 9 - 21

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

7. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

I nodi dyddiad y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol Aberdyfi.

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI, 17 MAWRTH 2026

Presenoldeb:

Cynghorwyr Gwynedd: Y Cynghorwyr Robert Dewi Owen, Anne Lloyd Jones. John Pughe

Aelodau Cyfetholedig: David Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Guy Shaw (Aelod o Glwb Hwylio Dyfi), Al Crisp (Outward Bound Trust Wales), Phil Morgan (RNLI Aberdyfi)

Sylwedyddion: Cynghorydd Gwilym Jones (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog)

Swyddogion yn bresennol: Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), William Arthur Stockford (Harbwrfeistr Aberdyfi), Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Economi a Chymuned) Dan Cartwright (Uwch Swyddog Harbyrau) Courtney Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth a Dinesig) Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cynghorydd Medwyn Hughes, a Mr Ian Baylis.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. COFNODION

Derbyniwyd fod cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2025 yn gywir.

Wrth gyfeirio at y pwyntiau gweithredu a godwyd yn y cyfarfod diwethaf, adroddwyd arnynt gan roi diweddariad ar y 2 fater;

- Cadarnhawyd bod dadansoddiad o ffynonellau incwm yr harbwr wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ar faterion rheolaethol yr harbwr, yn unol â'r dymuniad a godwyd yn y cyfarfod diwethaf.
- Adroddwyd ar ansawdd dŵr harbwr Aberdyfi. Cadarnhawyd mai Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn gyfrifol am fonitro llygredd ac ansawdd dŵr. Nodwyd bod dau bwynt samplo yn Aberdyfi, sef y prif draeth, ac Aberdyfi Wledig. Adroddwyd bod y dosbarthiadau wedi cael eu cyhoeddi ar ddiwedd flwyddyn ddiwethaf gan CNC, a bod y ddau sampl wedi cyrraedd safon 'ardderchog'.
- Nodwyd mai dim ond 3 diwrnod y bu'r lefelau bacteria yn codi i lefel uchel. Eglurwyd bod y wybodaeth yn gyhoeddus ar wefan CNC a bod rhybuddion cyson yn cael eu rhyddhau ynghylch ansawdd dŵr yn dilyn cyfnodau o law trwm. Nodwyd bod 31 o rybuddion wedi'u cyhoeddi llynedd yn y tymor

ymdrochi i dynnu sylw at y posibilrwydd y gallai dŵr gael ei effeithio. Sicrhawyd bod y rhybuddion yn cael eu dosbarthu yn eang ymhlith defnyddwyr yr harbwr a'r canolfan ymwelwyr yn Aberdyfi. Cadarnhawyd hefyd nad oes wybodaeth am ryddhau carthffosiaeth yn y dŵr , a bod hyn yn newyddion cadarnhaol. Diolchwyd am y wybodaeth.

4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau, a thywyswyd yr aelodau trwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Manylwyd ar y data fel rhan o drefniadau monitro a rheoli perfformiad y Gwasanaeth Morwrol. Wrth gyfeirio at y data perfformiad, amlygwyd nad oedd llawer wedi newid yn sylweddol dros gyfnod y gaeaf. Nodwyd bod nifer y cytundebau angori yn Aberdyfi wedi cynyddu o 73 i 83 o 2023/24 i 2025/26, a bod Swyddfa'r Harbwr wedi derbyn sawl ymholiad ynglŷn ag angorfeydd newydd yn ddiweddar. Nodwyd bod hyn yn arwydd calonogol fod y niferoedd yn debygol o gynyddu ymhellach o gymharu â thymhorau blaenorol.

- Diolchwyd i staff yr harbwr am eu hymroddiad, eu gwasanaeth a'u proffesiynoldeb, gan nodi bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adborth cadarnhaol a dderbyniwyd gan forwyr lleol ac ymwelwyr sy'n defnyddio'r harbwr. Atgoffwyd aelodau bydd y system cofrestru yn ail agor ar y 1af o Ebrill, ac fe'u hanogwyd i atgoffa morwyr i gofrestru ac adnewyddu eu trwyddedau bryd hynny.

- Cyfeiriwyd at y data yn y tabl sydd yn ymwneud â boddhad cwsmeriaid. Ymfalchïwyd bod lefel boddhad cwsmeriaid wedi cynyddu yn gyson dros y tair blynedd diwethaf. Diolchwyd i staff yr harbwr am eu hymroddiad a'u gwaith caled wrth gynnal gwasanaeth o safon uchel, gan nodi bod y canlyniadau cadarnhaol hyn yn adlewyrchu eu hymrwymiad a'u proffesiynoldeb.

- Adroddwyd ar ddiogelwch yr harbwr. Cadarnhawyd bod Mr Owen Morgan wedi'i benodi yn 'Berson Dynodedig' newydd ar gyfer Cyngor Gwynedd, ac iddo gynnal archwiliadau o'r harbyrau yng Ngwynedd, gan gynnwys harbyrau Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Hafan Pwllheli. Nodwyd bod canlyniadau'r archwiliadau yn gadarnhaol a bod y Gwasanaeth ar fin cyflwyno ei Ddatganiad Cydymffurfio a chyhoeddi ei ddogfennaeth Cod Diogelwch ar wefan y Cyngor cyn diwedd mis Mawrth.

- Soniwyd am y tywydd garw a'r stormydd cynyddol a brofwyd dros aeaf 2025/26. Nodwyd nad oedd llawer o ddifrod nag aflonyddwch wedi ei achosi i harbwr Aberdyfi yn ystod y cyfnod hwnnw.

- Manylwyd ar adnoddau'r harbwr a'r gyllideb a darparwyd yr amserlen ddiweddaraf ar gyfer costau 2026/27. Nodwyd bod rhan fwyaf o'r costau wedi cynyddu yn raddol ac yn ddisgwyliedig yn unol â lefelau chwyddiant. Cyfeiriwyd at yr amrywiad yn y costau rhwng yr harbyrau fel y dangosir yn y tabl yn yr adroddiad. Cadarnhawyd bod costau cofrestru badau pŵer wedi cynyddu ychydig hefyd oherwydd lefelau chwyddiant..

- Rhoddwyd diweddariad ar sefyllfa gyllidebol yr harbwr. Amlygwyd bod Harbwr Aberdyfi wedi tanwario , sydd yn newyddion calonogol.

- Manylwyd ar y dyraniad incwm, yn unol â chais blaenorol gan Aelodau'r Pwyllgor am ddadansoddiad manylach o ffynonellau incwm ar gyfer yr harbwr.

- Cyfeiriwyd at y datblygiadau sydd ar y gweill mewn perthynas â'r adeilad arfaethedig ar gyfer Swyddfa Harbwr Aberdyfi. Cadarnhawyd bod cwmni wedi'i gomisiynu i baratoi cynlluniau a fydd yn cefnogi'r broses o gyflwyno cais cynllunio ac yn sicrhau bod y dyluniad yn cwrdd â holl ofynion cynllunio a rheoleiddiol perthnasol.

- Holwyd a oedd amserlen wedi ei phennu ar gyfer y rhaglen waith? Mewn ymateb cadarnhawyd bod swyddogion yn yr adran Eiddo yn parhau i weithio ar y prosiect, a mynegwyd gobaith y byddai'r cais cynllunio yn llwyddiannus.

- Cadarnhawyd bod gwaith i'r lanfa bellach ar y gweill. Eglurwyd bod y prosiect yn ymwneud ag adnewyddu neu ail-ddefnyddio'r byrddau pren cyfredol, ynghyd ag amnewid y stribedi ymylol. Nodwyd bod ymdrech yn cael ei gwneud i gwblhau'r gwaith cyn gynted â phosib wrth geisio lleihau unrhyw aflonyddwch i ddefnyddwyr yr harbwr.

Rhoddwyd diweddariad ar faterion gweithredol Harbwr Aberdyfi gan yr Harbwrfeistr.

Cyflwynwyd gwybodaeth am faterion mordwyo'r harbwr, gan nodi bod pum Hysbysiad i Forwyr mewn grym ar hyn o'r bryd mewn perthynas â mynediad at afon Dyfi. Esboniwyd bod hyn o ganlyniad i ofynion cynnal a chadw parhaus, ac amodau'r môr a'r tywydd garw. Nodwyd bod y gwasanaeth yn argymell i forwyr gysylltu â Swyddfa'r Harbwr a chyfeirio at yr hysbysiad Lleol i Forwyr am y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â mordwyo yn Harbwr Aberdyfi.

Cadarnhawyd bod archeb wedi ei chodi ar gyfer Bwi Allanol newydd, wedi i'r bwi allanol blaenorol gael ei olchi i'r lan yn ystod storm dros y gaeaf. Nodwyd y disgwylir i'r bwi newydd gael ei ddanfon yn y dyfodol agos.

Nodwyd bod gwaith adnewyddu ar y lanfa wedi ei drefnu i ddechrau yn fuan ym mis Mawrth, gan ganolbwyntio ar adnewyddu'r byrddau decin pren oedd yn angenrheidiol. Nodwyd y bydd rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd yn cael eu hysbysebu o'r datblygiadau a'r amserlenni pan fo hynny'n briodol a gwneir pob ymdrech i gwblhau'r gwaith gyda chyn lleied o aflonyddwch a phosib i ddefnyddwyr yr harbwr.

Manylwyd ar y gwaith cynnal a chadw sydd yn mynd rhagddo, gan dynnu sylw ar y prif bwyntiau;

- Nodwyd bod gwaith wedi'i gyflawni i lanhau holl arwynebau'r harbwr er mwyn cael gwared ar dyfiant algâu a chwyn, gan wella diogelwch ac edrychiad cyffredinol yr harbwr. Cyfeiriwyd at fuddsoddiad o £4,500 mewn 'bowser' a golchydd pwysedd uchel newydd a ddefnyddiwyd i gefnogi'r gwaith hwn.

- Nodwyd bod gwaith adnewyddu sylweddol wedi'i gwblhau ar drelar cwch yr harbwr, gan gynnwys gosod olwynion, echel a chyplydd (hitch) newydd.
- Cadarnhawyd bod cwch patrôl yr Harbwr wedi'i drosglwyddo i Borthmadog er mwyn cynnal adolygiad 'Cod 3 Cwch Gwaith', ac er mwyn cynnal gwasanaeth llawn ar y peiriannau. Mae'r cwch bellach wedi dychwelyd i Aberdyfi ac yn barod ar gyfer y tymor nesaf.Nodwyd bod gwaith cynhwysfawr wedi'u gwblhau ar Gymhorthydd Mordwyo Rhif 2, gan gynnwys ei dynnu a chynnal gwaith trwsio ar y gwaith dur gan Wasanaethau Morol Aberdyfi. Sicrhawyd bod gwaith trwsio'r gwaith dur a Gymhorthydd Mordwyo Rhif 2 wedi ei wneud hefyd. Nodwyd bod y cymhorthydd bellach mewn cyflwr da ac yn gwbl weithredol.
- Eglurwyd bod cylchoedd clymu dur gloyw newydd wedi'i chreu ar gyfer y ddwy set o risiau ar y cei, a byddant yn cael eu gosod cyn y Pasg. Cadarnhawyd bod gwaith cynnal a chadw yn parhau ar y lloc, a bod trefniadau mewn llaw i osod sgip er mwyn gwaredu'r malurion a'r deunyddiau sydd wedi cronni yno. Nodwyd bod gwaith i symud a chladdu carcasau ar hyd y blaendraeth yn parhau. Croesawyd y ffaith fod y gwasanaeth wedi buddsoddi mewn cerbyd 4x4 newydd i gefnogi'r staff, gan nodi y bydd hyn yn caniatáu i swyddogion gyflawni eu dyletswyddau yn ddiogel ac yn effeithiol ar draws yr harbwr ac ardaloedd y traeth.
- Holodd Aelod a oedd trefniadau mewn llaw i glirio'r tywod ar y promenâd a'r maes parcio cyn dechrau cyfnod y Pasg? Cydnabuwyd bod y gwynt yn achosi heriau parhaus ac yn arwain at grynhoad sylweddol o dywod yn yr ardal. Cadarnhawyd bydd swyddogion yn gwneud pob ymdrech i glirio'r sbwriel oddi ar y traeth, y promenâd a'r maes parcio ond nodwyd bod symudiad tywod yn broblem barhaus. Eglurwyd y bydd swyddogion tymhorol yn cael eu penodi er mwyn cefnogi'r gwaith cynnal a chadw ac i helpu i gadw'r harbwr a'r traeth yn glir ac yn ddiogel.

- Nododd Aelod ei fod wedi sylwi ar bobl ifanc yn gwersylla ac yn cysgu yn y twyni tywod ar draeth Aberdyfi, a holodd pa drefniadau oedd mewn lle i fonitro a rheoli'r sefyllfa o safbwynt iechyd a diogelwch. Eglurwyd nad oes gan y Gwasanaeth bwerau gorfodi i symud gwersyllwyr, ond bod modd cymryd camau mewn perthynas â thaflu sbwriel, cynnau tanau neu droseddau perthnasol eraill. Nodwyd hefyd fod gan Gyfoeth Naturiol Cymru bwerau cyfreithiol mewn perthynas â difrod i'r twyni tywod, a sicrhawyd bod swyddogion yn cysylltu â'r sefydliad cyn gynted â phosibl os daw unrhyw broblem i'r amlw

Manylwyd ar y digwyddiadau diweddar yn yr harbwr, gan nodi bod hyfforddiant yng Nghlwb Hwylio Dyfi wedi parhau drwy gydol y gaeaf gyda llawer o aelodau yn cwblhau tystysgrifau Cychod Pŵer lefel 2 yn llwyddiannus. Llongyfarchwyd Kate a Dan Stevens am gael eu hadnabod am eu cyfraniad eithriadol wrth ennill 'Gwobr Gwirfoddolwyr y Flwyddyn' yng Ngwobrau Chwaraeon Gwynedd.

Cyfeiriwyd at y digwyddiadau sydd wedi'u cadarnhau ar y gweill, gan gynnwys:

- Hanner Marathon Dyfi X ym mis Ebrill

- Ras Nofio 13km Aberdyfi ym mis Mehefin
- Aquathon Dyfi 26km ym mis Medi.

Gobeithiwyd bydd y tywydd yn braf er mwyn cynorthwyo trefniadau ar gyfer y digwyddiadau a dymunwyd llwyddiant i'r holl drefnwyr digwyddiadau. Sicrhawyd bod y gwasanaeth yn parhau i gefnogi gweithdrefnau gweithredu diogel o fewn yr harbwr i sicrhau bod modd cynnal yr holl ddigwyddiadau yn ddiogel.

Cyfeiriwyd at y digwyddiad barcud a chadarnhawyd bod trafodaethau yn mynd rhagddo i gynnal y digwyddiad yn Aberdyfi. Croesawyd Aelodau i gysylltu os hoffent gynnal digwyddiad yn yr harbwr.

Sicrhawyd bod y gwasanaeth yn y broses o recriwtio staff tymhorol. Nodwyd bod staff wedi mynychu ffair gyrfaoedd yn y gobaith o ddenu mwy o ddiddordeb yn y swyddi. Diolchwyd am yr adroddiad a'r wybodaeth. Diolchwyd i'r staff morwrol am gynnal yr harbyrau a chanmolwyd am ddarparu gwasanaeth rhagorol.

PENDERFYNWYD

Nodi a derbyn yr adroddiadau.

5. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd bod y cyfarfod nesaf ar y 17fed Tachwedd 2026

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00yb a daeth i ben am 11:45yb.

_____

(Cadeirydd)